



ewmpas



Ariannin y Gymru
Llywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

ARFOR

CEFNDIR

Ers 1984 mae'r label Fflach wedi bod yn rhan ganolog o fywyd diwylliannol Cymru, yn cynhyrchu a rhyddhau cerddoriaeth amrywiol, o fandiau fel Ail Symudiad a Catsgam, i artistiaid unigol fel Buddug Verona James ac Einir Dafydd, a chorau lleol, bandiau newydd a cherddoriaeth i blant.

Fflachiwch trwy'r degawdau hynny, ac fe welwch chi'r brodyr Richard a Wyn yn adeiladu stiwdio, yn rhyddhau fideos Cymraeg, yn sefydlu is-label Fflach:Tradd gan ryddhau rhyfeddodau gwerinol gan Llio Rhydderch a Julie Murphy ymyst eraill, yn tyfu'r stiwdio a'r label, yn sefydlu RASP, is-label indie ifanc; mae'r hanes yn hir a chyfoethog. Nawr, mae Fflach yn edrych i dyfu eto, ac yn ethos DIY y brodyr, mae'n ddatblygiad radical. Mae'r cwmni wedi ei drosi yn gymdeithas budd cymunedol, Fflach Cymunedol. Bydd y cwmni newydd yn parhau gyda swyddogaethau Fflach o reoli hawliau'r canueon a'r artistiaid trwy'r gangen gyhoeddi, ac yn parhau i recordio a hyrwyddo cerddoriaeth newydd, gyda ffocws ar yr elfen gymunedol.

Yr hyn sy'n radical yw bod y cwmni yn cael ei agor i fyny i'r gymuned i'w brynu. Mae'r 'gymuned' yn un eang, o ffrindiau Richard a Wyn yn Aberteifi, i gasglwyr recordiau yn Japan, o gymuned gerddorol Cymru, i'r ymddiddorwyr mewn mentrau cymunedol. Mae'r cynnig hwn yn gyfle i ddod gyda Fflach Cymunedol ar gam nesaf y siwrne, gan sicrhau dyfodol i Fflach, yr enw, yr hanes, y degawdau o drysorau cerddorol; ond hefyd i newid pethau, i dyfu yn y gymuned, i roi cyfleoedd newydd i bobl ifanc y Gorllewin, i daflu golau ar waith da corau ac unigolion, i roi llwyfan, i greu cynnwrf, i newid y byd... Popeth oedd yn graidd i ethos gychwynol Fflach, ac oedd mor bwysig i Richard a Wyn. Mewn gwirionedd, rhoi gweledigaeth Richard a Wyn ar waith y'n ni. Ond i wneud hynny, mae'n bwysig tynnu'r pethau i ddarnau, edrych ar bopeth, ac Ad-drefnu.

BACKGROUND

Since 1984 the label Fflach has been a central part of the cultural life of Wales, producing and releasing various music, from bands such as Ail Symudiad and Catsgam, to individual artists such as Buddug Verona James and Einir Dafydd, and local choirs, new bands and music for children.

Fast forward through those decades, and you will see the brothers Richard and Wyn building a studio, releasing Welsh videos, establishing a sub-label Fflach:Tradd releasing the folk wonders of Llio Rhydderch and Julie Murphy among others, growing the studio and label, establishing RASP, a young indie sub-label; the history is long and rich. Now, Fflach is looking to grow again, and in the brothers' DIY ethos, it's a radical development. The company has been

converted into a community benefit society, Fflach Cymunedol. The new company will continue with Fflach's functions of managing the rights of the songs and artists through the publishing arm, and will continue to record and promote new music, with a focus on the community element.

What is radical is that the company is being opened up to the community to buy it. The 'community' is a wide one, from Richard and Wyn's friends in Cardigan, to record collectors in Japan, from the Welsh musical community, to those interested in community initiatives. This offer is an opportunity to join Fflach Cymunedol on the next stage of the journey, ensuring a future for Fflach, the name, the history, the decades of musical treasures; but also to change things, to grow in the community, to give new opportunities to young people in the West, to shed light on the good work of choirs and individuals, to give a platform, to create a stir, to change the world... Everything that was the core of Fflach's initial ethos, which was so important to Richard and Wyn. In fact, we are putting Richard and Wyn's vision into action. But to do that, it's important to take things apart, look at everything, and Ad-drefnu (reorganize).

**"PERCHNOGAETH
GYMUNEDOL YW'R FFORDD
YMLAEN I BAWB AC MAE'N
WYCH GWELD Y DIWYDIANT
CERDDORIAETH YN CAMU
I'R CYFEIRIAD YMA."**

ALUN LLWYD, AM/
PYST

**"COMMUNITY OWNERSHIP
IS THE WAY FORWARD FOR
EVERYONE AND IT'S GREAT
TO SEE THE MUSIC
INDUSTRY MOVING IN THIS
DIRECTION."**

ALUN LLWYD, AM/
PYST



CYMDEITHAS BUDD CYMUNEDOL

Ffordd o strwythuro ein hunain yw'r Gymdeithas Budd Cymunedol. Yn lle bod Fflach yn parhau fel cwmni preifat (Fflach Cyf.), mae Fflach Cymunedol yn mynd i fod yn eiddo i'r cyfranddalwyr — y gymuned. Bydd yr elw sy'n cael ei greu yn cael ei fwydo yn ôl mewn i'r cwmni, gan sicrhau bod dyfodol hir dymor, a bod gwaith newydd yn gallu cael ei ryddhau yn gyson ac yn safonol.

Mae Fflach Cymunedol wedi ei gofrestru gyda'r FCA (Financial Conduct Authority) a'r Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014.

Gall cymdeithasau fel Fflach Cymunedol gyhoeddi math o gyfranddaliadau a elwir yn gyfalaf cyfranddaliadau y gellir ei godi, sy'n unigryw i gyfraith cymdeithas o'r fath. Gellir tynnu cyfalaf cyfranddaliadau y gellir ei godi o'r gymdeithas, yn amodol ar reolau'r gymdeithas ac unrhyw amodau a nodir mewn dogfen cynnig cyfranddaliadau. Mae gan y rhan fwyaf o gymdeithasau reolau sy'n rhoi pwerau dewisol i'r bwrdd wrthod neu atal tynnu arian yn ôl os yw'n ddarbodus yn ariannol gwneud hynny. Mae hyn yn golygu bod cyfalaf cyfranddaliadau y gellir ei godi mewn perygl llawn. Gallai Aelodau golli rhywfaint, neu'r cyfan, o'r arian y maent yn ei fuddsoddi. Ond mae ganddynt hefyd y sgôp i dynnu rhywfaint, neu'r cyfan, o'u cyfalaf yn ôl pan fydd ei angen arnynt, yn amodol ar ganiatâd. Yn wahanol i gyfranddaliadau trosglwyddadwy, nid oes rhaid i aelodau ddod o hyd i brynwr parod, na negodi pris am eu cyfranddaliadau.

Mae cyfalaf cyfranddaliadau y gellir ei godi yn gosod cyfrifoldeb ar gymdeithas i reoli ei chyfalaf yn ddarbodus. Mae angen iddo sefydlu cronfeydd wrth gefn i ddarparu ar gyfer codi arian, neu i ddenu cyfalaf cyfranddaliadau newydd gan aelodau newydd neu bresennol i gymryd lle cyfalaf sy'n cael ei dynnu'n ôl. Mae'r rhan fwyaf o gymdeithasau newydd yn atal codi arian am gyfnod cychwynnol, tair blynedd neu fwy fel arfer, fel y gallant gronni cronfeydd wrth gefn i ariannu codi arian. Nid yw cymdeithas budd cymunedol yn talu difidend ar y budsoddiad.

Bydd pob cyfranddalwr, neu aelod, yn cael un pleidlais, dim ots ar faint y buddsoddiad, ond gall y buddsoddiad hwnn fod unrhywle rhwng £50 a £20,000. Y peth pwysig i'w nodi yw mai buddsoddiad hir-dymor yw hwn. Petai'r fenter yn llwyddo, gall canran o'r buddsoddwyr allu cael eu harian yn ôl ar ôl tair mlynedd, a gobeithio y gallwn dalu llog o 2% ar gyfranddaliadau hefyd. Ond mi all y fenter fethu, a bydd yr arian a fuddsoddwyd felly ddim yn cael ei dalu yn ôl.

Cryfder y strwythr yma yw yr elfen gymunedol. Mae'n sicrhau amrywiaeth o leisiau a sgiliau yn rhan o'r cwmni. Bydd bwrdd yn cael ei ethol o'r aelodau yma, a'r bwrdd fydd yn llywio'r fenter gyda staff yn rhedeg y cwmni o ddydd i ddydd.

COMMUNITY BENEFIT SOCIETY

The Community Benefit Society is a way of structuring ourselves. Instead of Fflach continuing as a private company (Fflach Cyf.), Fflach Cymunedol is going to be owned by the shareholders - the community. The profit that is created will be fed back into the company, ensuring that there is a long-term future, and that new work can be released regularly and to a high standard.

Fflach Cymunedol is registered with the FCA (Financial Conduct Authority) and the Co-operative Societies and Community Benefit Societies Act 2014.

Societies can issue a form of shares known as withdrawable share capital, which is unique to society law. Withdrawable share capital can be withdrawn from the society, subject to the society's rules and any conditions set out in a share offer document. Most societies have rules that give the board discretionary powers to refuse or suspend withdrawals if it is financially prudent to do so. This means withdrawable share capital is fully at risk. Members could lose some, or all, of the money they invest. But they also have the scope to withdraw some, or all, of their capital when they need it, subject to consent. Unlike with transferable shares, members don't have to find a willing buyer, or negotiate a price for their shares.

Withdrawable share capital places a responsibility on a society to manage its capital prudently. It needs to establish reserves to provide for withdrawals, or to attract new share capital from new or existing members to replace capital that is being withdrawn. Most new societies suspend withdrawals for an initial period, typically three or more years, so that they can build up reserves to finance withdrawals. A community benefit society does not pay a dividend on the investment.

Each shareholder, or member, will get one vote, no matter the size of the investment, but that investment can be anywhere between £50 and £20,000. The important thing to note is that this is a long-term investment. If the initiative succeeds, a percentage of the investors can get their money back after three years, and hopefully we can pay back interest of 2% on share holding as well. But the venture can fail, and the money invested will not be paid back.

The strength of this structure is the community element. It ensures a variety of voices and skills within the company. A board will be elected from these members, and the board will steer the initiative with staff running the company day to day.

UNIGOLION PEOPLE

Ar hyn o bryd, mae grant ARFOR yn sicrhau bod swydd rhan amser i roi'r cynlluniau yma ar waith. Mae pwylgor anffurfiol hefyd wedi ei sefydlu, a sylfaenwyr i'r cwmni wedi eu dewis o'r grwp yma a chyfarwyddwyr Fflach Cyf. Er mwyn rhoi eich enw ymlaen i fod yn aelod o fwrdd Fflach Cymunedol, ticiwch y blwch priodol ar y ffurflen gais. Bydd y grant yma a'r gyflogaeth mae'n cefnogi yn dod i ben ar Rhagfyr 31, 2024. Ar ôl hynny gobeithiwn barhau i gyflogi o gronfeydd Fflach.

At the moment, the ARFOR grant ensures that there is a part-time job to implement these plans. An informal committee has also been established, and the founders of the company have been chosen from this group and the directors of Fflach Cyf. To become a member of Fflach Cymunedol's board, please tick the appropriate box on the form below. This grant and the employment it supports will terminate on December 31, 2024, after which we hope to continue funding the job one day a week.

STAFF

NICO DAFYDD
Cydlynnydd prosiect ARFOR

MEFIN HUGHES
Gwaith gweinyddol

LLEUCU JENKINS
Cyfryngau Cymdeithasol

HARRI OWAIN
Dylunio a brand

CYFARWYDDWYR SYLFAENOL FOUNDING DIRECTORS

GRANVILLE JOHN
Cyn-gyfarwyddwr Fflach Cyf. Mae Granville wedi bod ynghlwm â Fflach ers degawdau. Mae'n gyfarwyddwr ar gwmni Cware ac Olew Trefig, ac yn gyfarwyddwr llu o gynhyrchiadau theatraidd trwy Gwmni Theatr y Gromlech.

Former director of Flach Cyf. Granville has been involved with Flach for decades. He is a director of the Trefglin Quarry and Oil company, and a director of many theatrical productions through Cwmni Theatr y Gromlech.

ANN JONES

Cyn-gyfarwyddwr Fflach Cyf. Er mai athrawes oedd Ann trwy ei gyrrfa, ers colli Richard, Wyn a Kevin, Ann sydd wedi cadw Fflach Cyf. i fynd trwy'r cyfnod cythryblus yma.

Former director of Flach Cyf. Although Ann was a teacher throughout her career, since losing Richard, Wyn and Kevin, Ann has kept Fflach Cyf. going through this troubled period.

CATRIN DAVIES

Cyn-gyfarwyddwr Fflach Cyf. Mae Catrin yn gyn-ddirprwy brifathrawes, yn gantores ei hun, wedi rhyddhau dau gaset, a rhoi ei llais i nifer o ganeuon Fflach. Mae wedi arwain corau yn rhyngwladol.

Former director of Flach Cyf. Catrin is a former deputy headteacher, a singer herself, has released two cassettes, and lent her voice to a number of Fflach songs. She has led choirs internationally.

EINIR THOMAS

Ysgrifennydd. Mae Einir yn gantores adnabyddus, ac wedi rhyddhau nifer o ganeuon trwy Fflach. Ennilodd Cân i Gymru a WawFfactor, cyn dod yn ôl i'r Gorllewin a dechrau Côr Rhoci yn ardal Crymych.

Secretary. Einir is a well-known singer, and has released a number of songs through Fflach. She won Cân i Gymru (Song for Wales) and WawFactor, before coming back to the West and starting Côr Rhoci in the Crymych area.

DYLAN WILLIAMS

Mae perthynas Dylan gyda Fflach yn mynd yn ôl ddegawdau. Fel rhan o'r cwmni Wês Gle, daeth Dylan yn rhan allweddol o waith dybio Fflach yn y 90au. Roedd hefyd yn ffrind agos gyda Wyn a Richard, a fel technegydd yn Theatr Felinfach, mae'n elfen bwysig o waith creadigol y Gorllewin.

Dylan's relationship with Fflach goes back decades. As part of the Wês Gle company, Dylan became a key part of Fflach's dubbing work in the 90s. He was also a close friend of Wyn and Richard, and as a technician at Theatr Felinfach, he is an important element of the West's creative work.

PWYLLGOR LLYWIO

STEERING COMMITTEE

CLEIF HARPWOOD

Cerddor yw Cleif, yn adnabyddus am ei gyfnod fel prif leisydd Edward H Dafis. Mae'n angerddol am gerddoriaeth, ac am yr iaith Gymraeg, ac fel aelod o bwyllgor Gŵyl Fel 'Na Mai, wedi taflu ei hun mewn i weithgaredd diwylliannol ei ardal fabwysiedig.

Cleif is a musician, well known for his time as the lead singer of Edward H Dafis. He is passionate about music, and about the Welsh language, and as a member of the Fel 'Na Mai Festival committee, has thrown himself into the cultural activity of his adopted area.

CRIS TOMOS

Bydd Cris Tomos yn adnabyddus i nifer am ei waith diflino yn codi arian ac ymgynghori ar brynu asedau i'r gymuned trwy ei waith yn Planed. Roedd yn gyfarwyddwr ar Castell Aberteifi, ac yn gallu nodi pryniant Crymych Arms, Tafarn Sinc, Canolfan Hermon, i gyd i'w cymunedau, yn ei bortffolio hirfaith.

Cris Tomos will be familiar to many for his tireless work raising money and consulting on the purchase of assets for the community through his work at Planed. He was a director of Cardigan Castle, and is able to list the purchase of Crymych Arms, Tafarn Sinc, Canolfan Hermon, all for their communities, in his long portfolio.

EUROS LEWIS

Trwy Wês Glei y daeth Euros i weithio gyda Fflach. Roedd y cwmni teledu yn cyd-weithio â'r cwmni recordiau ar waith dybio yn y 90au. Mae Euros yn frwd dros gymunedau, ac yn ddiweddar buodd wrth lyw prynu hen ysgol Cribyn ar gyfer y gymuned.

It was through Wês Glei that Euros came to work with Fflach. The television company collaborated with the record company on dubbing work in the 90s. Euros is passionate about communities, and was recently in charge of buying Cribyn's old school for the community.

STEFF REES

Daw Steff Rees i bwyllgor Fflach o'n perthynas gyda Cered (Menter Iaith Ceredigion). Mae Steff yn gerddor, yn drefnydd gigs llwyddiannus, yn arwain teithiau cerdded, yn seiclo ac yn teithio.

Steff Rees comes to the Fflach committee from our relationship with Cered (Menter Iaith Ceredigion). Steff is a musician, successful gig organizer, walking tour guide, cycler and traveller.

DAFYDD JONES

Yn fab i Richard, cafodd Dafydd flas ar waith Fflach yn ifanc iawn. O'i fand cyntaf Garej Dolwen i'w waith ar nifer o ddyluniadau CDs Fflach, mae ganddo brofiad helaeth o sut mae'r cwmni'n gweithio, a syniadau cryf am sut i symud ymlaen.

As the son of Richard, Dafydd got a taste of Fflach's work at a very young age. From his first band Garej Dolwen to his work on a number of Fflach CD designs, he has extensive experience of how the company works, and strong ideas about how to move forward.



5 DIBEN

BETH SYDD ANGEN EI WNEUD, A PAM EIN BOD NI'N AGOR CYNNIG CYFRANDDALIADAU I'N AELODAU?

Gyda Fflach Cyf. wedi bod yn segur mewn gwirionedd ers 2022, mae'r angen am buddsoddiad newydd yn ddifrifol. Mae'r gwaith o gynnal y cwmni cyhoeddi wedi bwyta i mewn i'n cronfa wrth gefn heb yr incwm gwirioneddol a ddaw o ryddhau cerddoriaeth newydd a buddsoddi mewn artistiaid.

Heb y cynnig cyfranddaliadau mae'n debygol mai dod i stop fyddai gweithgaredd Fflach, gyda'r holl artistiaid sydd yn dibynnu arnom i reoli eu hasedau cerddorol ar eu colled. Byddai'r holl weithiau sydd yn ein catalog yn mynd yn ddiwerth, a'r gwaith roiodd Richard, Wyn, Kevin a phawb arall fuodd ynghlwm â Fflach yn mynd ofer.

Budd eich buddsoddiad yn mynd tuag at sefydlu, sefydlogi, a chynnig ffordd ymlaen i waith y cwmni, boed yn sicrhau taliadau cyson i'n artistiaid, yn rhyddhau caneuon neu albymau o'n catalog, neu, yn fwy pwysig na dim, yn parhau i roi'r cyfle i artistiaid o bob math i ryddhau eu cerddoriaeth. Dyma yw ein dibenion:

1. Trosi'r cwmni o gwmni cyfyngedig Fflach Cyf. i gymdeithas budd cymunedol Fflach Cymunedol (mae hyn wedi ei wneud!)
2. Parhau i reoli ein cwmni cyhoeddi – Cyhoeddiadau Mwldan – gan sicrhau taliadau rheolaidd i'n artistiaid presennol
3. Tyfu ein cronfeydd wrth gefn er mwyn sicrhau bywyd hir-dymor y cwmni
4. Rhyddhau cerddoriaeth newydd, lleol, cymunedol, hen a newydd (dyma'r darn cyffrous)
5. Rhoi gwreiddiau newydd yn y dref, boed yn swyddfa, yn ofod aml-bwrpas, neu yn stiwdio gymunedol



5 AIMS

WHAT NEEDS TO BE DONE, AND WHY ARE WE OPENING A SHARE OFFER TO OUR MEMBERS?

With Fflach Cyf. effectively being idle since 2022, the need for new investment is dire. Running the publishing company has eaten into our reserves without the real income that comes from releasing new music and investing in artists.

Without the share offer it is likely that Fflach's activity would come to a halt, with all the artists who rely on us to manage their musical assets losing out. All the works that are in our catalog would become useless, and the work that Richard, Wyn, Kevin and everyone else involved with Fflach put in would go in vain.

Your investment will go towards establishing, stabilizing, and offering a way forward for the company's work, whether it is ensuring regular payments to our artists, releasing songs or albums from our catalog, or, more importantly than anything, continuing to give artists of all kinds the opportunity to release their music. Our aims are:

1. Converting the company from Fflach Ltd limited companies. to community benefit society Fflach Cymunedol (this has been done!)
2. Continue to manage our publishing company — Cyhoeddiadau Mwldan (Mwldan Publications) — ensuring regular payments to our current artists
3. Growing our reserves in order to ensure the long-term life of the company
4. Releasing new music, local, community, old and new (this is the exciting part)
5. Putting new roots in the town, be it an office, a multi-purpose space, or a community studio



DYFODOL

Y SWM I'W GODI

Rydym yn edrych i godi lleiafswm o £50,000, gydag uchafswm o £100,000.

Bydd yr arian yma yn mynd tuag at y dibenion canlynol:

- Sicrhau swydd ran amser i weinyddu'r cwmni, i weithio ar brosiectau, ac i barhau i godi arian refeniw a chapital gydag arian grant pellach
- Sicrhau refeniw i'n galluogi i recordio a rhyddhau cerddoriaeth newydd
- Adeiladu arian wrth gefn y cwmni newydd er mwyn sicrhau bywyd hir-dymor i'r cwmni

Yn yr achos ble nad ydym yn cyrraedd ein targed, byddwn yn ail-asesu ein cynlluniau, gan roi'r opsiwn i gyfranddalwyr i gadw eu buddsoddiad yn y cwmni gyda chynllun busnes newydd wedi'i wirio. Bydd y ffenest yn cau yn yr achos ble mae'r cyfanswm wedi ei gyrraedd.

RHAGOLGYNON INCWM

Disgwyliwn allu dyblu incwm y cwmni o fewn tair mlynedd, gan godi refeniw i redeg prosiectau cymunedol trwy grantiau cymunedol a chelfyddydol. Byddwn hefyd yn buddsodi mewn creu a rhyddhau cerddoriaeth newydd ynghyd ag ail-becynnau cerddoriaeth bresenol o'r arian a godir yn y cyfnod gwerthu cyfranddaliadau ac o unrhyw elw o fewn y ddwy flynedd gyntaf.

Bydd Fflach Cymunedol yn berchen ar holl gerddoriaeth Cyhoeddiadau Mwldan, gan sicrhau llif refeniw cyson gyda thaliadau chwarterol i'r cwmni. Ein nod yw ehangu ein cyrhaeddiad o ran gwerthu copïau ffisegol trwy bartneriaethau â dosbarthwyr a gwerthu'n uniongyrchol. Bydd hyn yn cynnwys ymdrech benodol tuag at werthu finyl a nwyddau hyrwyddo.

SEFYLLFA ARIANNOL

Mae'r dair mlynedd ddiwethaf, er yr ansicrwydd, wedi codi elw i'r cwmni.

Disgwyliwn i'r patrwm yma barhau gydag elw yn cael ei fusoddi yn allbwn cerddorol y cwmni, a gwerthiant yn cynyddu wrth i gerddoriaeth newydd gael ei ryddhau.

ELW/COLLED TAIR MLYNEDD FFLACH CYF.

| | 2024 | 2023 | 2022 |
|------------------------|---------------|---------------|---------------|
| GWERTHIANT | 45,952 | 46,288 | 49,030 |
| COSTAU UNIONGYRCHOL | 11,319 | 12,297 | 18,895 |
| ELW CRYNSWTH | <u>34,633</u> | <u>33,991</u> | <u>30,135</u> |
| INCWM ARALL | 22,789* | 707 | 8,457** |
| ELW CRYNSWTH % | 75.37% | 73.43% | 61.46% |
| GORBENION | | | |
| Gweinyddu | 25,563 | 22,360 | 23,899 |
| Sefydliad | 3,745 | 3,565 | 7,806 |
| Ariannol | 1,199 | 1,447 | 1,184 |
| Dibrisiant | 1,680 | 1,744 | 1,206 |
| | <u>32,187</u> | <u>29,116</u> | <u>34,095</u> |
| Elw / Colled cyn treth | 25,235 | 5,582 | 4,497 |

*yn cynnwys grant ARFOR a Cwmpas

**yn cynnwys grant Creative Wales

SUT FYDDWN NI'N GWARIO'R ARIAN?

| | £50,000 | £100,000 |
|-----------------------|---------------|----------------|
| STAFFIO | 20,000 | 30,000 |
| RHYDDHAU CERDDORIAETH | 3,500 | 10,000 |
| ARDDANGOS/ARCHIFO | 0 | 15,000 |
| OFFER | 10,000 | 10,000 |
| FFIOEDD CYCHWYNOL | 5,000 | 5,500 |
| ALBWM AML-GYFRANNOG | 0 | 8,000 |
| GWEINYDDU | 5,000 | 5,000 |
| TANYSGRIFIADAU | 6,500 | 6,500 |
| GWAITH YN Y GYMUNED | 0 | 10,000 |
| CYFANSWM | 50,000 | 100,000 |

RHAGOLYON TAIR MLYNEDD FFLACH CYMUNEDOL

| | 2025 | 2026 | 2027 |
|-------------------------------------|----------------------|----------------------|----------------------|
| <u>INCWM</u> | | | |
| Gwerthiant digidol | 18,000 | 20,000 | 25,000 |
| Gwerthiant ffisegol | 3,000 | 5,000 | 10,000 |
| Grantiau* | 10,000 | 30,000 | 50,000 |
| Cyfranddaliadau | 50,000** | 0 | 0 |
| <u>Cyfanswm</u> | <u>83,000</u> | <u>55,000</u> | <u>85,000</u> |
| <u>COSTAU</u> | | | |
| Staffio | 20,000 | 20,000 | 20,000 |
| Taliadau artistiaid | 10,000 | 12,000 | 14,000 |
| Offer | 10,000 | 2,000 | 2,000 |
| Recordio | 3,000 | 4,000 | 7,000 |
| Dylunio | 2,500 | 3,000 | 3,000 |
| Dyblygu | 300 | 500 | 1,200 |
| Printio | 600 | 1,000 | 2,000 |
| Hysbysebu | 1,500 | 3,000 | 3,000 |
| Tanysgrifiadau | 6,500 | 3,000 | 3,000 |
| Yswiriant | 1,500 | 1,500 | 1,500 |
| Ffioedd cychwynol | 5,000 | 0 | 0 |
| Gweinyddu | 5,000 | 5,000 | 5,000 |
| <u>Cyfanswm</u> | <u>65,900</u> | <u>55,000</u> | <u>61,700</u> |
| <u>CYFANSWM ELW / COLLED</u> | <u>17,100</u> | <u>0</u> | <u>23,300</u> |

*heb eu dyfarnu

**llefafswm

BETH SY'N DIGWYDD GYDA'R ARIAN?

£50,000

STAFFIO

Galluogi i gyflogi aelod o staff rhan amser dau ddiwrnod yr wythnos

Sicrhau cysail, cyn grantiau, i dalu am amser gweithwyr llawrydd ac unigolion i wneud gwaith sylfaenol i'r cwmni newydd

ISADEILEDD

Offer newydd yn gallu cael ei brynu gan alluogi'r staff i weithio o bell

Buddsoddi mewn meddalwedd newydd i symleiddio llif gwaith

RYDDHAU

Rhoi dechreubwynt ariannol i recordio a rhyddhau cerddoriaeth newydd

Cynnig sylfaen ar gyfer ceisio am grantiau cyfatebol i weithio gyda chymunedau ac artistiaid

£100,000

STAFFIO

Galluogi i gyflogi aelod o staff rhan amser tri i bedwar diwrnod yr wythnos neu dau berson (2 a 1.5)

Sicrhau cysail, cyn grantiau, i dalu am amser gweithwyr llawrydd ac unigolion i wneud gwaith sylfaenol i'r cwmni newydd

ISADEILEDD

Offer newydd yn gallu cael ei brynu gan alluogi'r staff i weithio o bell

Buddsoddi mewn meddalwedd newydd i symleiddio llif gwaith

Cyflwynioneddol i gatalogio ac archifo gwaith Fflach Cyf. ac Ail Symudiad yn effeithiol, gan sicrhau dioglewch i'r hen waith a fyddai'n ddechreuan i arddangosfa barhaol, a chynnig ffordd effeithiol o archifo gwaith newydd

RYDDHAU

Rhoi dechreubwynt ariannol i recordio a rhyddhau cerddoriaeth newydd

Cynnig sylfaen ar gyfer ceisio am grantiau cyfatebol i weithio gyda chymunedau ac artistiaid

Cysail gwirioneddol i greu albymau gyda bandiau presenol, ac i greu albwm aml-gyfrango yn dathlu Ail Symudiad gyda bandiau a chynhyrchwyr gorau Cymru yn ogystal ag albymau aml-gyfranog blynyddol

FUTURE

THE AMOUNT TO BE RAISED

We are looking to raise a minimum of £50,000, with a maximum of £100,000. This money will go towards the following purposes:

- Securing a part-time job to administer the company, to work on projects, and to continue to raise revenue and capital with further grant money
- Securing revenue to enable us to record and release new music
- Building up the new company's reserves in order to ensure a long-term life for the company

In the case where we do not reach our target, we will reassess our plans, giving shareholders the option to keep their investment in the company with a new amended business plan. The window will close in the case where the total has been reached.

INCOME FORECASTS

We expect to be able to double the company's income within three years, raising revenue to run community projects through community and arts grants. We will also invest in creating and releasing new music as well as repackaging existing music from the money raised in the share sale period and from any profits within the first two years.

Fflach Cymunedol will own all of Cyhoeddiadau Mwldan's (Mwldan Publishing) music, ensuring a constant revenue stream with quarterly payments into the company. We aim to expand our reach in selling physical copies through partnerships with distributors and selling directly. This will include a conscious push towards selling vinyl and merchandise.

FINANCIAL POSITION

The last three years, despite the uncertainty, have raised profits for the company. We expect this pattern to continue with profits being invested in the company's musical output, and sales increasing as new music is released.

THREE YEAR PROFIT/LOSS FFLACH CYF.

| | 2024 | 2023 | 2022 |
|--------------------------|---------------|---------------|---------------|
| SALES | 45,952 | 46,288 | 49,030 |
| DIRECT COSTS | 11,319 | 12,297 | 18,895 |
| GROSS PROFIT | <u>34,633</u> | <u>33,991</u> | <u>30,135</u> |
| OTHER INCOME | 22,789* | 707 | 8,457** |
| ELW CRYNSWTH % | 75.37% | 73.43% | 61.46% |
| OVERHEADS | | | |
| Administration | 25,563 | 22,360 | 23,899 |
| Organisation | 3,745 | 3,565 | 7,806 |
| Financial | 1,199 | 1,447 | 1,184 |
| Depreciation | 1,680 | 1,744 | 1,206 |
| | <u>32,187</u> | <u>29,116</u> | <u>34,095</u> |
| Profit / Loss before tax | 25,235 | 5,582 | 4,497 |

*includes ARFOR and Cwmpas grants

**includes Creative Wales grant

HOW WILL WE SPEND THE MONEY?

| | £50,000 | £100,000 |
|----------------------|---------------|----------------|
| STAFFING | 20,000 | 30,000 |
| RELEASING MUSIC | 3,500 | 10,000 |
| EXHIBITING/ARCHIVING | 0 | 15,000 |
| EQUIPMENT | 10,000 | 10,000 |
| START-UP FEES | 5,000 | 5,500 |
| COMPILATION ALBUM | 0 | 8,000 |
| ADMINISTRATION | 5,000 | 5,000 |
| SUBSCRIPTIONS | 6,500 | 6,500 |
| COMMUNITY WORK | 0 | 10,000 |
| <u>CYFANSWM</u> | <u>50,000</u> | <u>100,000</u> |

THREE YEAR FORECAST FOR FFLACH CYMUNEDOL

| | 2025 | 2026 | 2027 |
|----------------------------|---------------|---------------|---------------|
| <u>INCOME</u> | | | |
| Digital sales | 18,000 | 20,000 | 25,000 |
| Physical sales | 3,000 | 5,000 | 10,000 |
| Grants* | 10,000 | 30,000 | 50,000 |
| Shares | 50,000** | 0 | 0 |
| Total | 83,000 | 55,000 | 85,000 |
| <u>COSTS</u> | | | |
| Staffing | 20,000 | 20,000 | 20,000 |
| Artist payments | 10,000 | 12,000 | 14,000 |
| Equipment | 10,000 | 2,000 | 2,000 |
| Recording | 3,000 | 4,000 | 7,000 |
| Design | 2,500 | 3,000 | 3,000 |
| Duplication | 300 | 500 | 1,200 |
| Printing | 600 | 1,000 | 2,000 |
| Marketing | 1,500 | 3,000 | 3,000 |
| Subscriptions | 6,500 | 3,000 | 3,000 |
| Insurance | 1,500 | 1,500 | 1,500 |
| Start-up costs | 5,000 | 0 | 0 |
| Administration | 5,000 | 5,000 | 5,000 |
| Total | 65,900 | 55,000 | 61,700 |
| TOTAL PROFIT / LOSS | 17,100 | 0 | 23,300 |

*not yet awarded

**minimum

WHAT WILL WE DO WITH THE MONEY?

£50,000

STAFFING

Enables us to employ a part-time member of staff two days a week

Secures a precedent, before grants, to pay for the time of freelancers and individuals to do basic work for the new company

INFRASTRUCTURE

New equipment can be purchased enabling the staff to work remotely

We can invest in new software to streamline workflow

RELEASES

Gives a financial starting point to record and release new music

Offers a base for seeking matching grants to work with communities and artists

£100,000

STAFFING

Enables us to employ a part-time member of staff three to four days a week or two people (2 and 1.5)

Secures a precedent, before grants, to pay for the time of freelancers and individuals to do basic work for the new company

INFRASTRUCTURE

New equipment can be purchased enabling the staff to work remotely

We can invest in new software to streamline workflow

A real opportunity to catalog and archive the work of Fflach Cyf. and Ail Symudiad effectively, ensuring longevity for the old work and leading to a permanent exhibition, and contributing toward an effective way of archiving new work

RELEASES

Gives a financial starting point to record and release new music

Offers a base for seeking matching grants to work with communities and artists

A real precedent to create albums with current bands, and to create a compilation album celebrating Ail Symudiad with the best bands and producers in Wales along with yearly compilation releases

MANYLION

Menter fydd yn budsoddi mewn creu ac hyrwyddo cerddoriaeth newydd fydd Fflach Cymunedol.

Mi fydd yr enillion ariannol yn gyfyngedig, ond falle y byddwch yn ennill llog ac fe fydd eich atebolrwydd yn gyfyngedig. Falle y bydd modd i chi arbed treth trwy fuddsoddi hefyd.

Bydd y ffenest i brynu cyfranddaliadau yn agor ar Rhagfyr yr 16eg 2024, ac yn cau ar y 17eg o Chwefror 2025.

UN AELOD, UN BLEIDLAIIS

Mae'n rheol allweddol fod gan bob aelod un bleidlais, dim ots pa faint bynnag o gyfranddaliadau a brynwyd ganddynt. Mae pob siâr yn werth £1. Isafswm nifer y siârs y mae modd eu dal yw 50, a'r uchafswm yw 20,000.

Rhaid i aelodau fod dros 16 oed. Serch hynny, mae modd i oedolyn brynu siariau ar ran plentyn a'i gadw mewn ymddiriedaeth.

Rhaid talu am y siariau'n llawn wrth wneud cais neu drwy gyfres o daliadau yn ôl amserlen benodol. Cysylltwch â ni os mai dyma eich bwriad.

RHEOLAU A LLYWODRAETHIANT

Mae'r Gymdeithas wedi mabwysiadu rheolau arferol cymdeithasau budd cymunedol – rheolau a luniwyd gan Co-operatives UK. Gellir gweld copi ar ein gwefan.

Cyfrifoldeb y Bwrdd fydd rhedeg y fenter o ddydd i ddydd, ac aelodau'r Bwrdd fydd Cyfarwyddwyr cyfreithiol y Gymdeithas. Aelodau'r Gymdeithas fydd yn penodi aelodau'r Bwrdd ac yn cymeradwyo polisiau talu llog ar gyfranddaliadau ac ailbrynu cyfranddaliadau, a hynny yn y Cyfarfodydd Blynnyddol.

Bydd aelodau etholedig y Bwrdd yn dal eu swyddi am gyfnod o dair blynedd. Bydd yr aelodau hynny sy'n ffurio'r Bwrdd cychwynnol i gyd yn ymddeol yn y CCB cyntaf yn unol â rheolau'r Gymdeithas, ond gallant gynnig eu hunain i'w hailethol. Wedi hynny, bydd aelodau'r Bwrdd yn ymddeol yn raddol dros y tair blynedd ganlynol yn unol â rheolau'r Gymdeithas. Bydd holl aelodau newydd y Bwrdd yn cael eu hethol gan aelodau'r Gymdeithas.

Bydd gan bob aelod hawl i fynychu'r CCB a sefyll i'w ethol i'r Bwrdd. Bob blwyddyn, bydd y Bwrdd yn cyflwyno argymhelliaid ynglŷn â thaliadau llog ar gyfranddaliadau i'w gymeradwyo gan yr aelodau yn y Cyfarfod Blynnyddol.

AILBRYNU CYFRANDDALIADAU

Ni fydd yn bosib gwerthu na throsglwyddo cyfranddaliadau, ac eithrio yn achos marwolaeth neu fethdaliad. Yr unig ffordd o gael gwerth eich buddsoddiad yn ôl fydd trwy wneud cais i'r Gymdeithas ei hun i'w prynu nôl am eu gwerth gwreiddiol. Dim ond o warged, neu o gyfalaf newydd a godir gan aelodau, y gellir tynnu cyfalaf eich cyfranddaliadau. Bydd angen i chi roi o leiaf dri mis o rybudd o'ch dymuniad i dynnu'n ôl. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi na fydd hyn yn bosib cyn blwyddyn 3.

Pan ddaw'n bosib ystyried ailbrynu cyfranddaliadau mi fydd y Bwrdd yn nodi meinu prawf ac uchafsymiau blynnyddol priodol. Mae'n bwysig deall y gall y Bwrdd benderfynu peidio â chytuno i ailbrynu os yw hynny'n groes i:

- fuddiannau tymor hir y Gymdeithas,
- yr angen i gynnal cronfeydd wrth gefn digonol,
- yr ymrwymiad i'r gymuned.

CLO ASEDAU

Mae rheolau'r Gymdeithas yn cynnwys clo asedau sy'n creu rhwymedigaeth gyfreithiol. Mae hyn yn golygu, ar ôl talu llog i gyfranddalwyr ac ad-dalu unrhyw gyfalaf sy'n cael ei dynnu, fod yn rhaid i unrhyw enillion sy'n weddill gael eu hail-fuddsoddi yn y busnes neu eu defnyddio er budd y gymuned leol neu at achos elusennol neu gymunedol arall. Felly, pe bai'r Gymdeithas yn cau ond bod y busnes wedi cynyddu yn ei werth, mi fyddai'n bosib gwerthu'r asedau a dychwelyd cyfalaf i aelodau hyd at werth y buddsoddiadau gwreiddiol. Serch hynny, ni fyddai'n bosib dosbarthu unrhyw werth ychwanegol yn y ffordd yma.

TÂL

Ni fydd Cyfarwyddwyr nac Aelodau'n elwa'n ariannol mewn unrhyw ffordd o weithgareddau'r Gymdeithas, heblaw trwy gymryd rhan yng nghynnig cyfranddaliadau a chynigion benthyciad y Gymdeithas.

SUT I DDOD YN AELOD

Gallwch ddod yn aelod o Fflach Cymunedol trwy lenwi'r ffurflen isod, neu trwy fynd i'n gwefan fflach.cymru a llenwi'r ffurflen ar-lein. Byddwch yn prynu isafswm o 50 siâr ac uchafswm o 20,000 (ar gost o £1 y siâr). Os yn riant neu warchodwr, gallwch wneud hyn ar ran person o dan 16 oed trwy dicio'r blwch priodol. Yn yr un modd, gallwch dicio'r blwch priodol os hoffech gael eich ystyried fel aelod o'r bwrdd.

DETAILS

Fflach Cymunedol will be an initiative that invests in the creation and promotion of new music.

The financial gains will be limited, but you may earn interest and your liability will be limited. You may also be able to save tax by investing.

The window to buy shares will open on December 16th 2024, and close on 17th February 2025.

ONE MEMBER, ONE VOTE

It is a key rule that each member has one vote, no matter how many shares they have bought. Each share is worth £1. The minimum number of shares that can be held is 50, and the maximum is 20,000.

Members must be over 16 years of age. Nevertheless, it is possible for an adult to buy shares on behalf of a child and hold them in trust.

The shares must be paid for in full when applying or through a series of payments according to a specific schedule. Please contact us if this is your intention.

RULES AND GOVERNANCE

The Society has adopted the usual rules of community benefit societies - rules drawn up by Co-operatives UK. A copy can be viewed on our website.

It will be the responsibility of the Board to run the initiative from day to day, and the members of the Board will be the legal Directors of the Association. The members of the Association will appoint the members of the Board and approve policies for the payment of interest on shares and the repurchase of shares, and that at the Annual Meetings.

The elected members of the Board will hold their positions for a period of three years. Those members who make up the initial Board will all retire at the first AGM in accordance with the Association's rules, but may offer themselves for re-election. After that, Board members will gradually retire over the following three years in accordance with the Association's rules. All new members of the Board will be elected by the members of the Association.

All members will have the right to attend the AGM and stand for election to the Board. Each year, the Board will present a recommendation regarding interest payments on shares to be approved by the members at the Annual Meeting.

REDEMPTION OF SHARES

It will not be possible to sell or transfer shares, except in the case of death or bankruptcy. The only way to get the value of your investment back will be by applying to the Society itself to buy them back for their original value. Your share capital can only be deducted from surplus, or from new capital raised by members. You will need to give at least three months notice of your wish to withdraw. However, it is important to note that this will not be possible before year 3.

When it becomes possible to consider repurchasing shares the Board will specify criteria and appropriate annual maximums. It is important to understand that the Board can decide not to agree to repurchase if that is contrary to:

- the long term interests of the Society,
- the need to maintain adequate reserves,
- the commitment to the community.

ASSET LOCK

The Association's rules include an asset lock which creates a legal obligation. This means that after paying interest to shareholders and repaying any capital withdrawn, any remaining earnings must be reinvested in the business or used to benefit the local community or for another charitable or community cause. Therefore, if the Association were to close but the business had increased in value, it would be possible to sell the assets and return capital to members up to the value of the original investments. Nevertheless, it would not be possible to distribute any additional value in this way.

PAYMENT

Neither Directors nor Members will benefit financially in any way from the Association's activities, other than by participating in the Association's share offer and loan offers.

HOW TO BECOME A MEMBER

You can become a member of Fflach Cymunedol by filling in the form below, or by going to our website fflach.cymru and filling in the form online. You will buy a minimum of 50 shares and a maximum of 20,000 (at a cost of £1 per share). If a parent or guardian, you can do this on behalf of a person under 16 by ticking the appropriate box. Likewise, you can tick the appropriate box if you would like to be considered as a member of the board.

AELODAETH

Gallwch wneud cais i ddod yn aelod o Fflach Cymunedol trwy ymweld â'n gwefan fflach.cymru neu trwy lenwi'r ffurflen isod a'i dychwelyd trwy'r post i Llys-y-coed, Aberteifi SA43 3AH neu i siop Awen Teifi yn Aberteifi.

RHYBUDD PWYSIG

Darlennwch yr ystyriaethau canlynol cyn penderfynu, sef...

- I. Pan fyddwch yn ystyried prynu cyfranddaliadau mae'n hanfodol eich bod yn deall mai buddsoddiad yn ein cymdogaeth a'n cymdeithas yw hwn, gyda'r bwriad o greu ased diogel a pharhaol i ni i gyd.
- II. Y bwriad yw adeiladu ar ein seiliau cymdeithasol a helpu i greu cymdogaeth ffyniannus a chynaliadwy. Nid yw'n fuddsoddiad confensiynol ac ni ddylech ddisgwyl enillion ariannol uchel nac uniongyrchol. Mae gwybodaeth lawn wedi'i nodi yn rheolau'r Gymdeithas sydd ar gael ar wefan yr ysgol.
- III. SYLWCH: Ni all gwerth cyfranddaliadau gynyddu y tu hwnt i'w gwerth gwreiddiol. Dylech fod yn ymwybodol y gallai gwerth cyfranddaliadau ostwng os yw'r busnes yn aflwyddiannus.
- IV. Yn fuddsoddwr, mae eich atebolrwydd wedi'i gyfyngu i werth eich cyfranddaliadau. Pe bai'r busnes yn methu (annhebygol) ni fyddai gennych unrhyw atebolrwydd pellach.
- V. Mi allai'r Gymdeithas ystyried talu llog o 2% ar gyfranddaliadau ar ôl i'r drydedd flwyddyn o fasnachu gael ei chwblhau a galluogi cyfranddalwyr i dynnu eu buddsoddiadau wedi'r bumed flwyddyn. Mae rheolau'r Gymdeithas yn caniatáu i daliadau llog gael eu hatal os nad yw perfformiad ariannol y Gymdeithas yn cyfiawnhau taliad o'r fath.
- VI. Yr unig ffordd i adennill buddsoddiadau (naill ai'r swm cychwynnol neu unrhyw werth gostyngedig – ac oni bai am daliadau llog neu ad-daliadau cyffredinol) yw trwy roi rhybudd i'r Gymdeithas o ddymuniad i dynnu buddsoddiad yn ôl. Ni all hyn ddigwydd yn ystod y dair mlynedd gyntaf wedi dyddiad cyhoeddi y cyfranddaliadau hyn.
- VII. Mae'r amodau penodol ar gyfer tynnu'n ôl yn cynnwys...
 - A. Rhaid i arian a dynnir yn ôl gael ei ariannu o wargedion masnachu neu gyfalaf cyfranddaliadau newydd. Maent yn ddewisol, gan fod yn ddarostyngedig i fod rhwng y Grŵp Llywio bod tynnu'n ôl yn gyson â buddiannau tymor hir y Gymdeithas.
 - B. Mae'r cyfanswm ad-daladwy bob blwyddyn wedi'i gyfyngu i uchafswm o 10% o werth cyfredol y cyfranddaliad.
 - C. Rhaid rhoi rhybudd o dri mis.

VIII. Bydd yr holl arian a fuddsoddir yn y cynnig cyfranddaliadau yma'n cael ei ddal yng nghyfrif banc Fflach Cymunedol Cyfyngedig a'i ddefnyddio yn unig at ddibenion rhedeg y cwmni fel yr amlinellir uchod.

- IX. Falle bydd modd i drethdalwyr gael ad-daliad 30% ar gost y cyfranddaliadau oddi wrth HMRC dan y cynllun Enterprise Investment Scheme (EIS). Ond mater i HMRC yw caniatau hynny neu beidio. Er bod y Gymdeithas wedi cymryd camau i sicrhau nad oes unrhyw beth yn y cynnig cyfranddaliadau hwn, nac yn y ffordd y bydd y cyllid ddaw i law, yn cael ei ddefnyddio yn groes i reolau EIS (ac wedi ceisio sicrwydd ymlaen llaw gan HMRC ar y sail honno) nid yw'n cymryd unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw fethiant gan fuddsoddwyr unigol i adennill treth mewn perthynas â'u buddsoddiadau. At hynny, eu cyfrifoldeb unigol hwy fydd sicrhau cywirdeb gwybodaeth am statws treth a fydd wedi'i darparu ganddynt wrth fuddsoddi.
- X. Mae Fflach Cymunedol Cyfyngedig wedi'i gofrestru gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA), ond nid yw'r Awdurdod yn rheoleiddio gwerthu cyfranddaliadau cymunedol. Megis llawer o fuddsoddiadau, mae cyfranddaliadau cymunedol yn agored i risg a gallech golli rhywfaint neu'r cyfan o'r arian rydych yn ei fuddsoddi. Yn wahanol i gyfrifon cadw gyda banciau stryd fawr, nid yw'r Cynllun lawndal Gwasanaethau Ariannol yn cynnwys cyfranddaliadau cymunedol, ac nid oes unrhyw hawl i gwyno i Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol.

Os y'ch chi'n ystyried buddsoddi swm sylweddol, falle yr hoffech ofyn am gyngor ariannol annibynnol cyn gwneud hynny.

I gael rhagor o wybodaeth am y prosiect, ewch i'n gwefan fflach.cymru neu cysylltwch dros ebost ar fflachcymunedol@gmail.com.

Gallwch weld ein rheolau yma.

MEMBERSHIP

You can apply to become a member of Flach Cymunedol by visiting our website fflach.cymru or by completing the form below and returning it by post to Llys-y-coed, Cardigan SA43 3AH or to Awen Teifi on the Cardigan High Street.

IMPORTANT WARNINGS

Please read the following considerations before deciding, namely...

- I. When you consider buying shares it is essential that you understand that this is an investment in our neighbourhood and society, with the intention of creating a safe and permanent asset for us all.
- II. The intention is to build on our social foundations and help create a prosperous and sustainable neighbourhood. It is not a conventional investment and you should not expect high or immediate financial returns. Full information is set out in the Association's rules which are available on the school's website.
- III. NOTE: The value of shares cannot increase beyond their original value. You should be aware that the value of shares may fall if the business is unsuccessful.
- IV. As an investor, your liability is limited to the value of your shares. If the business failed (unlikely) you would have no further liability.
- V. The Association could consider paying interest of 2% on shares after the third year of trading has been completed and enable shareholders to withdraw their investments after the fifth year. The Association's rules allow interest payments to be suspended if the Association's financial performance does not justify such payment.
- VI. The only way to recover investments (either the initial amount or any reduced value - and unless there are interest payments or general refunds) is by giving notice to the Association of a wish to withdraw an investment. This cannot happen during the first three years after the date of issue of these shares.
- VII. The specific conditions for withdrawal include...
 - A. Withdrawals must be funded from trading surpluses or new share capital. They are optional, being subject to the Steering Group's satisfaction that withdrawal is consistent with the long term interests of the Association.
 - B. The total repayable each year is limited to a maximum of 10% of the current value of the share.
 - C. Three months' notice must be given.
- VIII. All money invested in this share offer will be held in Fflach Cymunedol Cyfyngedig's bank account and used only for the purposes of running the company as outlined above.

- IX. Taxpayers may be able to get a 30% refund on the cost of the shares from HMRC under the Enterprise Investment Scheme (EIS). But it is up to HMRC to allow that or not. Although the Society has taken steps to ensure that nothing in this share offer, or in the way the funding will be received, is used contrary to the EIS rules (and has sought assurances in advance from HMRC on that basis) assumes no responsibility for any failure by individual investors to recover tax in respect of their investments. Furthermore, it will be their sole responsibility to ensure the accuracy of tax status information provided by them when investing.
- X. Fflach Cymunedol Cyfyngedig is registered with the Financial Conduct Authority (FCA), but the Authority does not regulate the sale of community shares. Like many investments, community shares are subject to risk and you could lose some or all of the money you invest. Unlike custodial accounts with high street banks, the Financial Services Compensation Scheme does not include community shares, and there is no right to complain to the Financial Ombudsman Service.

If you are considering investing a significant amount, you may wish to seek independent financial advice before doing so.

For more information about the project, visit our website fflach.cymru or contact via email on fflachcymunedol@gmail.com.

Our rules can be seen [here](#).

FFURFLEN FUDDSODDI

Dulliau talu:

- Dylid cyfeirio sieciau at Fflach Cymunedol Cyfyngedig
- BACS: FFLACH CYMUNEDOL CYFYNGEDIG 08-92-99 6737990700
- Ar-lein: fflach.cymru

Nodwch y côd 'FC' ynghyd â'ch blaenlythrennau a dau ddigid olaf eich rhif ffôn (er enghraift, byddai Jên Doe yn FCJD00)

Rwy'n cadarnhau fy mod wedi darllen y Cynnig Cyfranddaliadau llawn a chytunaf i'r canlynol gael eu cadw mewn cronfa ddata electronig: fy enw, cyfeiriad, rhif ffôn, ebost, nifer y cyfranddaliadau a brynwyd.

Defnyddir y wybodaeth yma i gynnal cofrestr aelodau a chyfranddaliadau yn unol â gofynion rheolau'r Gymeithas ac ar gyfer cyfathrebu gweithgareddau Fflach Cymunedol.

Bydd y swm a fuddsoddir yn gyfrinachol ac ni fydd unrhyw wybodaeth yn cael ei drosglwyddo i drydydd parti.

Nifer y Cyfranddaliadau _____ Gwerth y Cyfranddaliadau £_____

Llofnod _____

Enw _____

Cyfeiriad _____

Côd post _____ Rhif ffôn _____

Ebost _____

Rwyf eisiau cael fy ystyried i fod

yn rhan o'r pwylgor (ticiwch)

Dyddiad _____

Rwy'n riant neu warchodwr yn

prynu ar ran person o dan 16 oed

Dyddiad geni _____

(ticiwch)

Anfonwch at: Llys-y-coed, Aberteifi SA433AH neu dros ebost at fflachcymunedol@gmail.com. Byddwn yn anfon dystysgrif aelodaeth i chi trwy'r post neu drwy ebost.

INVESTMENT FORM

Payment methods:

- Cheques should be addressed to Fflach Cymunedol Cyfyngedig
- BACS: FFLACH CYMUNEDOL CYFYNGEDIG 08-92-99 6737990700
- Online: fflach.cymru

Please indicate the code 'FC' along with your initials and last two digits of phone number as reference (for example, Jane Doe would be FCJD00)

I confirm that I have read the full Share Offer and I agree to the following being stored in an electronic database: my name, address, telephone number, email, number of shares purchased.

This information is used to maintain a register of members and shares in accordance with the requirements of the Society's rules and for communicating Community Flash activities.

The amount invested will be confidential and no information will be passed on to third parties.

Number of Shares _____ Value of Shares £_____

Signature _____

Name _____

Address _____

Postcode _____

Phone number _____

Email _____

I would like to be considered as
a committee member (tick)

Date _____

I am a parent or guardian and
buying on behalf of a person
under 16

Date of birth _____

Send to: Llys-y-coed, Cardigan SA433AH or on email to
fflachcymunedol@gmail.com. We will send you a membership certificate by
post or email.